**ADOLYGIAD ANNIBYNNOL O GYMWYSTERAU YNG NGHYMRU**
**ADRODDIAD INTERIM ARGYMHELLION AR GYFER 2021 A BETH MAE'R RHAIN YN EU GOLYGU I DDYSGWYR**

**Ein Hargymhellion i'r Gweinidog Addysg:**

Rydym yn argymell bod cymwysterau yn 2021 yn cael eu dyfarnu trwy asesiadau a wneir mewn Ysgolion a Cholegau. Byddai'r asesiadau'n cael eu cymedroli'n allanonol ac mewn modd cadarn i sicrhau cysondeb ledled Cymru. Byddai hyn yn berthnasol ar draws TGAU, lefelau UG, Lefel A, Tystysgrif Her Sgiliau a chymwysterau galwedigaethol cymeradwy a ddyluniwyd ar gyfer Cymru.

Mae angen i'r dulliau hyn o asesu mewn canolfannau cael eu datblygu'n gyflym gan y cyrff cymwysterau, trwy weithio gyda dysgwyr a staff ysgolion a cholegau. Rhaid i'r penderfyniadau roi blaenoriaeth i'r dysgwyr ac adlewyrchu'r amgylchiadau heriol ar gyfer dysgu yn 2020 a 2021. Rhaid i benderfyniadau cael eu cyfathrebu'n glir at bawb sy'n gysylltiedig.

Rydym hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu Bwrdd Cyflawni i oruchwylio'r gwaith hwn.

**Beth fyddai hyn yn ei olygu i ddysgwyr pe bai ein hargymhellion yn cael eu derbyn?**

- Ni fyddai cyfres o arholiadau yng Nghymru yn haf 2021
- Byddai cymwysterau'n cael eu dyfarnu ar sail asesiadau a wneir mewn ysgolion a cholegau
- Byddai athrawon a darlithwyr yn gweithio gyda'r cyrff sy'n gyfrifol am gymwysterau yng Nghymru i sicrhau bod y dulliau asesu yn deg
- Mae'n debygol y byddai amrywiaeth o dasgau a gweithgareddau cytunwyd yn genedlaethol ar gyfer pob pwnc yn llywio'r broses asesu
- Byddai ysgolion a cholegau'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y canlyniadau'n debyg ledled Cymru
- Byddai athrawon a darlithwyr yn derbyn hyfforddiant ychwanegol ar brosesau asesu er mwyn eu cefnogi i fod yn deg â dysgwyr
- Byddai gan ddysgwyr lais ar y Bwrdd Cyflawni sy'n goruchwylio'r gwaith sydd angen ei wneud ar gyfer 2021
- Byddai lles dysgwyr yn cael ei gefnogi trwy gael gwared ar y pryder y gallai pob tasg llywio eu gradd derfynol, a'r ansicrwydd y gallai arholiadau sydd wedi'u trefnu cael eu gohirio ar fyr rybudd
- Byddai amser ychwanegol ar gael ar gyfer dysgu yn hytrach na'r wythnosau a dreulir ar adolygu a pharatoi arholiadau
- Byddai gan brifysgolion a chyflogwyr hyder bod y graddau a ddyfarnwyd yng Nghymru yn 2021 yn seiliedig ar broses asesu gref gyda'r fantais o amser dysgu ychwanegol

**Ein rhesymau dros wneud yr argymhellion hyn:**

Mae Covid-19 wedi tarfu ar ddysgu ers mis Mawrth 2020. Mae Covid-19 wedi effeithio'n wahanol ar gyfleoedd dysgwyr unigol i ddysgu. Mae'r gallu dysgwyr i fynd ar-lein i gael mynediad at addysg ddigidol hefyd yn amrywio. Mae'r aflonyddwch hwn ar ddysgu yn creu pryder ac ansicrwydd.

Credwn yn gryf fod y profiadau dysgu anghyson hyn yn golygu nad yw'n bosibl cynnal cyfres arholiadau cyhoeddus a fydd yn deg i bob dysgwr yn haf 2021. Credwn y gellir adlewyrchu cynnydd a photensial dysgwyr orau mewn asesiadau cadarn mewn ganolfan.

Rydym wedi cyrraedd ein hargymhellion ar ôl ymgynghori'n eang. Rydym wedi gwrando ar y cyrff sy'n gyfrifol am gymwysterau yng Nghymru, i'r proffesiwn addysgu ledled Cymru ac i’r sefydliadau sy'n gweithio'n agos gyda nhw. Yn bwysig, rydym wedi gwrando ar ddysgwyr a'u rhieni a'u gofalwyr ledled Cymru.

Credwn mai asesiadau yn y ganolfan yw'r ffordd orau ymlaen. Mae gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau y gellir gwneud yr asesiadau hynny'n deg ac mewn ffordd fydd yn ymdopi â chraffu.  Dod â'r rheini mewn ysgolion a cholegau a'r rheini yn y cyrff cymwysterau ynghyd i weithio ar hyn yw'r ffordd orau i greu system y gall pawb ymddiried ynddi.